


# __Urdd Gobaith Cymru

# __Adroddiad Blynyddol 2006/2007

urdd.org

**Llywydd yr Urdd –**
**Gareth Lloyd James**
Rhaid i bopeth da ddod i ben...

Gyda fy nghyfnod fel Llywydd Urdd Gobaith Cymru yn dod i ben, efallai y byddwch yn synnu clywed nad ymgolli mewn atgofion melys a phrofiadau'r flwyddyn yw bwriad y pwt hwn. Mae'r rheswm am hynny yn syml – mae 'na ormod i edrych ymlaen ato! Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos i mi nad yw'r Urdd yn fudiad sydd yn aros yn ei unfan yn hir, fel a brofwyd ar y meysydd chwarae ac yn Eisteddfod Sir Gâr eleni. Erbyn hyn mawr edrychaf ymlaen i Gonwy 08 gyda'r bwrlwm cystadlu yn ein deffro a'n cyffroi fel cenedl unwaith yn rhagor. Fel un sy'n gweithio mewn ysgol, rwy' hefyd yn dyst i'r hyn y mae'r Urdd yn ei gynnig i blant a phobl ifanc drwy'r flwyddyn, ac mae'r llu o weithgareddau a theithiau sydd ar y gweill yn barod yn ddigon i ddyfrio'r llygaid! Welais i erioed gymaint o blant cynradd yn gorfod cadw dyddiadur i gynllunio'u hamser! Ac mae'r cyfan yn ganlyniad i dîm gweithgar a brwdfrydig sy'n rhoi o'u gorau i'n hieuenctid. O'r Pwyllgor Cylch i'r Pwyllgor Gwaith, gwelaf deulu o staff a gwirfoddolwyr yn magu plant a phobl ifanc trwy roi gofal a chyfleoedd iddynt fwynhau eu plentyndod, a phrofi blas ar fywyd Cymreig o'r cychwyn cyntaf. A dyna, i mi, sy'n gwneud dyfodol yr Urdd mor gyffrous, mor llawn.

Rhaid i bopeth da ddod i ben...?
Wel, mae'r Urdd yn chwerthin yn wyneb y ddihareb honno.

**__Swyddogion Urdd Gobaith Cymru 2007**

Llywydd:
**Gareth Lloyd James**

Is-lywyddion:
**Sara Gwilym Thomas, Delyth Vaughan**

Cadeirydd:
**Carol Davies**

Is-gadeirydd:
**Tudur Dylan Jones**

Trysorydd:
**Rheon Tomos**

Ysgrifennydd:
**Andrea Parry**

Llywyddion Anrhydeddus ac Ymddiredolwyr:
**Prys Edwards, Wynne Melville Jones, Bob Roberts**

Ymddiredolwr:
**Rhiannon Lewis**

Cyfreithiwr Mygedol:
**Aled Walters**

**__Eleni...**
Prif fudiad ieuenctid Cymru

Aelodaeth ar i fyny, gydag 52,672 wedi ymaelodi eleni

25% o holl blant 10 oed yng Nghymru yn aelodau

1 o bob 3 o holl siaradwyr Cymraeg rhwng 8-18 yn aelod

215 o staff a throsiant ariannol o £6.8 miliwn

28,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru yn darllen y cylchgronau bob mis

700,000 o ymweliadau â'n gwefan newydd

Dros 95,000 o ymwelwyr i Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr

35,000 yn cystadlu yn y rowndiau chwaraeon lleol a rhanbarthol

58,000 yn cymryd rhan mewn sesiynau blasu chwaraeon

450 o arweinyddion chwaraeon newydd wedi eu hyfforddi

12,000 o aelodau yn mynychu clybiau chwaraeon wythnosol

**Urdd Gobaith Cymru**
Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1EY

Ffôn: **01970 613100**
E-bost: **urdd@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

Rhif Elusen: 524481
Rhif Cwmni: 263310

## __Adroddiad y Prif Weithredwr

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw. Mae'n gofnod blwyddyn o weithgareddau campus.

Drwy ein holl waith, mae ein nod o roi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau bywiog trwy gyfrwng y Gymraeg yn ganolog. Wrth wneud hyn rydym yn atgyfnerthu'r teimlad o berthyn i gymuned, ac i genedl.

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd y datganiad cwricwlwm ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mae gweithgareddau'r Urdd yn cyflawni'r amcanion a nodir yno drwy fod yn addysgiadol, mynegiannol, cyfranogol a grymusol.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau fod ein gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn cyflawni amcanion y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn arbennig yr erthyglau canlynol:

- fod gan bob plentyn yr hawl i gyfarfod â phlant eraill, a'r hawl i ymuno â grwpiau a sefydliadau.
- y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau plentyn yn llawn, y dylid annog plant i barchu eu diwylliant eu hunain ac eraill.
- fod gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Wrth ystyried cynnwys yr adroddiad hwn - gyda'r sôn am lu o eisteddfodau, y cystadlaethau a'r clybiau chwaraeon, y prosiectau cyfranogi a'r prosiectau dyngarol, y cylchgronau, y teithiau a'r cyfnodau preswyl – mae modd gweld yn gyflym iawn sut y mae gwaith yr Urdd yn cyflawni'r amcanion hyn – a mwy. Cytunwyd Partneriaeth Strategol eleni rhyngom â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fydd yn ein cynorthwyo i gyflawni mwy eto.

Fy mraint arbennig i yw diolch i'r rheiny trwy bob rhan o Gymru, yn wirfoddolwyr, yn gefnogwyr ac yn aelodau o staff, sydd wedi sicrhau fod y gwaith a gyflawna'r Urdd yn parhau i fod yn gyffrous ac yn berthnasol i fywydau plant a phobl ifanc. Diolch i chi gyd.

**Efa Gruffudd Jones**
Prif Weithredwr

## __Adroddiad y Cadeirydd

Braint ac anrhydedd aruthrol oedd cael fy ethol yn Gadeirydd ar fudiad sydd yn rhoi cymaint o fwynhad a phleser i mi, a hynny trwy gyfrwng gweithgareddau lu i bobl ifanc Cymru.

Heb os, mae'r cyfleoedd di-ri y mae pobl ifanc Cymru yn eu derbyn trwy Urdd Gobaith Cymru yn amhrisiadwy. Mae'r bobl ifanc sydd yn mentro manteisio ar y cyfleoedd – boed yn chwaraeon, yn brosiectau dyngarol, gwersylloedd, eisteddfodau, ymweliadau preswyl i bob rhan o'r byd ac ymweliadau dyddiol, yn cael profiadau gwych trwy gyfrwng y Gymraeg. Profiadau sydd yn aros yn y cof am byth a sydd gobeithio, yn dylanwadu'r ffordd mae ein pobl ifanc yn lledaenu negeseuon am Gymru led led y byd.

Unwaith eto gwelwyd Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2007 llwyddiannus tu hwnt, a diolch i bawb a weithiodd mor ddygn i sicrhau gŵyl ffyniannus a chyffrous iawn. Mae'r gwaith diflino yma i'w weld yn y bencampwaith o wythnos.

Dathlu pen-blwydd Gwersyll Llangrannog yn saith deg pump oed oedd un o brif ddathliadau'r Urdd eleni. Braf oedd gweld cymaint o blant a phobl ifanc yn Llangrannog yn ymuno yn y miri – heb anghofio cacen anferth yn Eisteddfod Sir Gâr a Mistar Urdd yn ymddangos i ymuno yn y dathliadau! Os nad ydych wedi ymweld â Caer Chwedlau, sef Canolfan Treftadaeth newydd Llangrannog a agorwyd eleni – ewch am dro – mae'n lle gwerth ei weld.

Rwy'n cofio dyfyniad a gafodd gryn effaith arnaf ac a'm hysbrydolodd yn y coleg sef, "Pan mae plant yn cael mwynhad maent yn dysgu orau" – ac rwy'n gwbl argyhoeddedig bod plant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru yn cael mwynhad enfawr – a hynny yn enw'r Urdd.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd yn cyfrannu tuag at weithgareddau'r Urdd, boed yn wirfoddolwyr, staff y mudiad ac wrth gwrs aelodau'r Urdd. Mae eich ymdrechion i'w gweld ym mwrlwm y mudiad. Edrychwn ymlaen am flwyddyn lewyrchus arall! Diolch!

**Carol Davies**
Cadeirydd

# __Gwersylloedd yr Urdd

## Gwersyll yr Urdd Caerdydd

- Mae dros 8,000 wedi aros yn y Gwersyll yn ystod y flwyddyn a thros 2,000 wedi gwneud gweithgareddau celfyddydol yn y Gwersyll. Bu cynnydd o 34% yn y niferoedd fu'n mynychu'r Gwersyll yn y flwyddyn ddiwethaf, a rheiny yn ymwelwyr o Gymru a phedwar ban y byd.

- Mae'r Gwersyll yn cynnal clwb perfformio Ffwrnais Awen ar y cyd gyda Menter Iaith Caerdydd sy'n denu dros 60 o bobl ifanc yn wythnosol. Ceir cyfle i weld perfformwyr yr Urdd yn dangos eu doniau yn Nglanfa Canolfan Mileniwm Cymru yn gyson.

- Byddwn yn lansio clwb digidol y Gwersyll eleni i aelodau hŷn yr Urdd er mwyn creu a darlledu rhaglenni radio a fideo ar y we ac mae'r Gwersyll hefyd yn gartref i wersi Cymraeg i oedolion, clybiau lleol ac yn lleoliad ymarfer i aelwydydd yr Urdd.

- Mae cannoedd o blant wedi ymweld â'r Gwersyll ar ymweliadau diwrnod gan fynychu gweithdai celfyddydol yn ogystal â theithiau o amgylch Canolfan Mileniwm Cymru.

Cysylltwch ag **Alun Owens**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Ffôn: **02920 635678**
E-bost: **Caerdydd@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/caerdydd**

## Gwersyll yr Urdd Glan-llyn

- Bu hi'n flwyddyn brysur arall yn y Gwersyll gydag incwm o dros £1 miliwn am y tro cyntaf yn ei hanes.

- Bu llawer o newidiadau staff yn ddiweddar – gyda phenodi Cyfarwyddwr, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolwr Gofal Cwsmer yn ogystal â Rheolwr Swyddfa newydd yn ystod gwanwyn a haf 2007.

- Hyfforddwyd pedwar i fod yn gymwys fel hyfforddwyr amrywiol weithgareddau awyr agored, gyda rhai yn parhau fel staff llawn amser yn y Gwersyll.

- Mae'r Gwersyll Haf wedi cael ymateb cadarnhaol ac mae'r diddordeb yn parhau i gynyddu.

- Yn ystod y flwyddyn cafodd cam cyntaf datblygiad Llwybr Tegid ei gwblhau fel bo'r cyswllt cerdded a beicio rhwng y Gwersyll, tref Y Bala a phentref Llanuwchllyn yn dod yn nes o hyd.

Cysylltwch â **Huw Antur Edwards**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Ffôn: **01678 541000**
E-bost: **Glan-llyn@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/glan-llyn**

## Gwersyll yr Urdd Llangrannog
## Canolfan yr Urdd Pentre Ifan

- Agorwyd y Ganolfan Dreftadaeth. Dyma ran olaf y cynllun datblygu a gychwynnwyd yn 2002.
- Bu hi heb os yn flwyddyn lwyddiannus arall gyda bron i 19,000 o wersyllwyr a throsiant o £1.8 miliwn.
- Erbyn hyn cyflogir 92 o staff gan y Gwersyll.
- Mae ein hadnoddau cymunedol yn cael defnydd da gan y gymuned leol.
- Dathlwyd pen-blwydd y Gwersyll yn 75 oed ym Mehefin. Amcangyfrifir bod bron i filiwn o wersyllwyr wedi ymweld â'r Ganolfan ers 1932.
- Cyrhaeddwyd Lefel 2 cynllun amgylcheddol Safon y Ddraig Werdd eleni eto.
- Mae ein hymrwymiad i ddatblygiad staff yn dal i ddwyn ffrwyth gyda nifer o staff wedi ennill cymhwyster N.V.Q. yn ystod y flwyddyn.
- Mae Pentre Ifan yn ganolfan ddelfrydol i grwpiau bach o bob math fwynhau cyfnod mewn llecyn hudolus yn Sir Benfro.

Cysylltwch â **Steffan Jenkins**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Ffôn: **01239 652140**
E-bost: **Llangrannog@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/llangrannog**



# __Yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

- Cafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus yn Sir Gâr 2007 ar faes y sioe yn Nantyci, ger tref Caerfyrddin. Cafwyd croeso twymgalon iawn gan y bobl leol ac roedd brwdfrydedd y trigolion yn arbennig.

- Daeth dros 15,000 o gystadleuwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni a thros 95,000 o ymwelwyr a gwelwyd cystadlu brwd trwy gydol yr wythnos.

- Gyda'r nos, cafwyd perfformiadau anhygoel gyda'r noson agoriadol **Llyfr Du**, ynghyd â pherfformiad ieuenctid yr ardal, **Dagrau'r Coed** yn Theatr y Lyric, heb anghofio'r cannoedd a gymrodd ran yn y sioe gynradd **O Bren Braf**.

- Gwelwyd bwrlwm ledled y maes gyda pherfformiadau di-ri ym mhob twll a chornel ac fe grëwyd maes llawn hwyl ac awyrgylch hapus.

- Cafwyd perfformiadau gan bob un o dair cangen Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd – perfformiad o **Trip Ysgol Ni** gan Dalaith y Gogledd yn Theatr Gwynedd; **Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan** gan Dalaith y De yng Nghanolfan Gartholwg; a **Dan y Wenallt** gan Dalaith y Canolbarth yng Ngholeg y Drindod.

- Roedd dros gant o aelodau'r Urdd ynghlwm gyda pherfformiadau'r Theatr Ieuenctid ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer datblygiad y Theatr gyda'r uchafbwynt yng Nghanolfan y Mileniwm yn 2009.

- Mae pawb bellach yn edrych ymlaen at Eisteddfod Conwy 2008 ar gaeau Gloddaeth Isaf. Bydd croeso arbennig yn eich aros yno.

Cysylltwch ag **Aled Siôn**
Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau
Ffôn: **01678 541012**
E-bost: **Eisteddfod@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/eisteddfod**







## __Cyfathrebu a Chylchgronau

- Ymaelododd 52,672 â'r Urdd eleni gyda 3,472 ohonynt dros 16 oed.
- Roedd stondinau'r Urdd yn yr Eisteddfodau a'r Sioe Frenhinol yn fywiog a phrysur gyda dathliad pen-blwydd Gwersyll yr Urdd Llangrannog yn Eisteddfod Sir Gâr yn uchafbwynt cofiadwy.
- Cafodd gwefan newydd yr Urdd ei lansio gyda Dylan a Meinir o BBC Radio Cymru yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Mae'r wefan wedi cael ymateb cadarnhaol dros ben.
- Mae uned arddangos newydd yr Urdd bellach yn cael ei ddefnyddio yn helaeth mewn digwyddiadau amrywiol led led Cymru.
- Cafwyd ymweliad cyffrous â Gwersyll yr Urdd Caerdydd gan Glyn Wise yn dilyn ei lwyddiant yn nhŷ Big Brother.
- Am y tro cyntaf cyhoeddwyd llyfryn ar y cyd gan y Gwersylloedd yn rhoi sylw i'w cyrsiau a bu'n adnodd marchnata gwerthfawr.
- Llwyddwyd i sicrhau sylw eang yn y wasg a'r cyfryngau Cymreig, gyda'r **Western Mail** yn ehangu ei ymdriniaeth o Eisteddfod yr Urdd a **BBC Radio Wales** yn ymweld â'r Eisteddfod am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r golofn wythnosol yn rhoi sylw i weithgaredd amrywiol yr Urdd yn **Y Cymro** yn parhau, a chafwyd colofn debyg yn y **Carmarthen Journal** cyn yr Eisteddfod.
- Cyhoeddwyd deg rhifyn yr un o **Cip**, **Bore Da** a **iaw!**, ac mae'r cylchgronau yn cael eu darllen gan 28,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru bob mis.
- Mae mudiad Comhluadar o'r Iwerddon wedi prynu'r hawl i gyhoeddi sawl cyfres o **Bore Da** mewn cylchgrawn newydd Gwyddelig i blant.
- Trefnwyd gweithdai ebost gyda Gwyneth Glyn, Bardd Plant Cymru, yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn a chyhoeddwyd mai Caryl Parry Jones ydi Bardd Pant Cymru 2007-2008.

Cysylltwch â **Siân Eleri Davies**
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Ffôn: **01970 613118**
E-bost: **Sianeleri@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

# __Gweithgareddau Hamdden, Addysgol a Chelfyddydol

- Bu'r calendr mor fyrlymus ag erioed eleni gydag ystod orlawn o weithgareddau a chystadlaethau amrywiol yn cael ei gynnig i holl aelodau'r Urdd.
- Darparwyd gwasanaeth i 52,672 o aelodau gan ein Swyddogion Datblygu, Swyddogion Ieuenctid, Swyddogion Datblygu Cynorthwyol a'n Swyddogion Chwaraeon mewn dros 960 o adrannau.
- Bu cynnydd yn ein darpariaeth i'r oedran 12 – 15 oed a sefydlwyd adrannau cymunedol newydd mewn 11 o ranbarthau.
- Parhaodd cynllun Bendigeidfran i gynnig cyfleoedd i flasu diwylliant a thraddodiadau Gwyddelig i aelodau hŷn y mudiad.
- Croesawyd ieuenctid o ddau gartref plant o dan anfantais o wlad Pwyl i Gymru.
- Gwelwyd diweddglo i gynllun Plant Mewn Angen Gwynedd Môn yn ystod y flwyddyn. Bu hwn yn gynllun arloesol i'r Urdd dros dair blynedd.
- Lluniwyd a chyflwynwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd eleni gan aelodau o Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi. Gweddnewidiwyd proffil y Neges eleni gan gân Elin Fflur, 'Law yn Llaw', a'r bathodynnau newydd.
- Ar ddiwedd y flwyddyn daeth yr Urdd yn un o bartneriaid craidd Gwirfoddolwyr y Mileniwm gan arwain at gyfleoedd i gynorthwyo gyda datblygiad personol ein haelodau rhwng 14 a 19 oed.
- Bu Cogurdd yn gynllun arbrofol eleni. Yn dilyn hyfforddiant allweddol bu nifer o staff yr adran yn cynal sesiynau Bwyta'n Iach a bu'n llwyddiant gydag ystod eang o blant a phobl ifanc. Y bwriad yw datblygu'r cynllun ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.
- Bu dros 1,500 o aelodau ar deithiau preswyl i wledydd tramor megis Ffrainc, Catalonia, Awstria, U.A.E, Iwerddon, a gwlad Pwyl yn ystod y flwyddyn.
- Cynhaliwyd dros 165 o weithgareddau hamdden i bobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Ehangwyd ar y cyfleoedd i'n haelodau trwy gydweithio brwd gyda nifer o gyrff eraill megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Mentrau Iaith, yr Eisteddfod Genedlaethol, BBC Cymru, S4C a Chynghorau Sir ledled Cymru.



# __Chwaraeon

- Bu'r Gwyliau Chwaraeon a gynhaliwyd gan yr Urdd ymysg y mwyaf a gynigiwyd i bobl ifanc yng Nghymru gyda dros 6,000 o gystadleuwyr yng Nghaerdydd, Bangor, Aberystwyth, Llanelli ac Abertawe. Bu 35,000 yn cystadlu yn y rowndiau lleol a rhanbarthol a bu 58,000 yn cymryd rhan mewn sesiynau blasu chwaraeon a gynhaliwyd gan yr Urdd.
- Daeth 138 o dimoedd i gystadlu yn yr Ŵyl Rygbi Uwchradd Genedlaethol yn Llanelli a 118 o dimoedd i gystadlu yn yr Ŵyl Bêl-rwyd Genedlaethol yng Nghaerdydd.
- Daeth tîm yr Urdd i'r brig yng Nghystadleuaeth Rygbi Rhyngwladol Ieuenctid saith bob ochr yr I.R.B. yn Nubai am yr ail dro yn olynol.
- Cynhaliwyd Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd yn y pwll Olympaidd yn Abertawe. Roedd 1,700 yn y gynulleidfa a 986 o gystadleuwyr yn cymryd rhan.
- Cynhaliwyd cystadleuaeth Aquathlon Genedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth, gyda 400 o athletwyr yn cymryd rhan.
- Hyfforddwyd dros 450 o arweinyddion chwaraeon newydd yn ystod y flwyddyn.
- Mae 12,000 o aelodau'r Urdd yn mynychu clybiau chwaraeon wythnosol.
- Cynhaliwyd chwech o gyrsiau chwaraeon yn y Gwersylloedd.
- Mae'r Adran Chwaraeon yn darparu cyfleoedd chwaraeon ar feysydd Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Amaethyddol.
- Mae'r adran yn cydweithio yn agos gyda Cyngor Chwaraeon Cymru a'r cyrff chwaraeon cenedlaethol.

Cysylltwch â
**Dyfrig Morgan**
Cyfarwyddwr Talaith y De
Ffôn: **02920 635682**
E-bost: **Dyfrig@urdd.org**

**Dafydd Carrington**
Cyfarwyddwr Talaith y Canolbarth
Ffôn: **01686 614036**
E-bost: **Dafydd@urdd.org**

**Mari Lloyd Pritchard**
Cyfarwyddwr Talaith y Gogledd
Ffôn: **01248 672106**
E-bost: **Mari@urdd.org**

Gwefan: **urdd.org**



## __ NAWDD

**Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adolygiad hwn.**

| | |
|---|---|
| BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD; Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government | **£605,600** |

### FFYNONELLAU ARIANNOL

**Cynigwyd y grantiau canlynol:**

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cynulliad Cymru (grant ieuenctid) | **£72,250** |
| Cyngor Llyfrau Cymru | **£26,000** |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | **£23,840** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | **£10,000** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru (Eisteddfod 2006) | **£65,400** |
| Cyngor Sir Ddinbych (Eisteddfod 2006) | **£300,000** |
| WEFO Interreg IIIA | **£58,506** |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | **£7,990** |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | **£2,519** |

**Grantiau Llangrannog a Glan-llyn**

| | |
|---|---|
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | **£102,170** |
| Amcan 1 EAGGF | **£37,902** |
| Cronfa Cyfleoedd Newydd | **£22,000** |

**Noddwyr**

Diolchwn i'r noddwyr a gefnogodd Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd £206,500 o nawdd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2007 gan y canlynol:

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Barcud Derwen, BT, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Bwydydd Castell Howell, Cyngor Chwaraeon Cymru, Garej Denzil Evans, Canolfan Iaith De Orllewin Cymru, Canolfan Trwsio Damweiniau Caerfyrddin, Cwmni Cyfreithwyr Hugh James, Cwmni Telesgop, Cig Calon Cymru, Coleg Llanymddyfri, Coleg Sir Gâr, Coleg y Drindod, Cwmni Gyrfa Cymru, Cwmni Morris Roberts, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gravells, Grŵp WRW, Leekes, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, J & J Motors, J. Davies a'i Fab Pencader, Morgan & Morgan, N Power, Nolan UPVC, Post Brenhinol, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Principality, Res UK, Schaeffler, Tesco, Telynau Teifi, Theatr Genedlaethol Cymru, Tinopolis, UCAC, Ungoed Thomas & King, Western Power, Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans, Ysbyty Werndale

Noddodd Post Brenhinol gystadleuaeth ysgrifennu llythyr yn y cylchgrawn **Cip** eleni.

Mae'r Urdd yn gwerthfawrogi partneriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru wrth ddatblygu gwaith Theatr Genedlaethol Ieuenctid yr Urdd gan gyfrannu £25,000 yn flynyddol am dair blynedd.

**Ymddiriedolaethau**

| | |
|---|---|
| BBC Plant Mewn Angen (dros 3 blynedd) | **£78,813** |

**Prif Gymynroddion**

| | |
|---|---|
| Kenneth Elias, Aberdâr (balans) | **£20,841** |
| W J Green, Pwllheli | **£1,000** |

**Awdurdodau Lleol**

| | |
|---|---|
| Powys | **£7,689** |
| Ceredigion | **£8,500** |
| Caerfyrddin | **£15,000** |
| Penfro | **£7,500** |
| Rhondda Cynon Taf | **£5,000** |
| Caerffili | **£10,000** |
| Môn | **£19,370** |
| Gwynedd | **£33,750** |
| Conwy | **£17,050** |
| Wrecsam | **£4,360** |

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Caerfyrddin – Eisteddfod 2007 | **£200,000** |
| Amrywiol – Eisteddfod 2007 | **£6,870** |

**Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd, sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gallwn eu cynnig yn cynnwys sylw yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.**

## __DATGANIAD YR ARCHWILWYR I YMDDIRIEDOLWYR URDD GOBAITH CYMRU

**Yr ydym wedi arholi'r crynodeb ariannol ar y dudalen yma.**

**Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr**

Yr ydych chi fel ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb ariannol. Yr ydym wedi cytuno i adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb ariannol gyda'r cyfrifon statudol llawn, a arwyddwyd ar 12 Hydref 2007.

**Sail ein barn**

Yr ydym wedi gwneud y gwaith hynny yr ydym yn ei ystyried yn addas i sefydlu a ydy'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol pan baratowyd rhain oddi wrthynt.

**Ein barn**

Yn ein barn mae'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007.

Patterson Jones & Evans.

**Patterson, Jones & Evans**
Archwilwyr Cofrestredig, Llanbedr Pont Steffan

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r cyfrifon uchod yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 12 Hydref 2007 ac maint wedi'u hanfon i'r Tŷ Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon gan Patterson, Jones & Evans a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

**Wedi ei arwyddo ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

## __ADRODDIAD BLYNYDDOL Y TRYSORYDD 2006/7

Rwyf yn hynod falch o ddatgan bod Adroddiad Blynyddol 2006/7 y mudiad yn dangos gweddill iach, ac un sydd yn uwch na'r disgwyl oherwydd arbedion mewn costau a chynnydd mewn incwm. Mae incwm a gwariant yr Urdd bellach ymhell dros £6m, symiau sylweddol o arian sydd yn ein galluogi i ehangu ein darpariaethau mewn sawl agwedd o'n gweithgareddau. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrechion sylweddol i ddenu arian newydd, adolygu craff o'r costau, a monitro cyson o'r cyllidebau.

Mae gwersylloedd Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd wedi bod yn hynod llwyddiannus eto eleni, gyda'u hymdrechion i ddenu mwy o ymwelwyr yn dwyn ffrwyth. Mae'r canolfannau yma yn cynnal eu hunain heb unrhyw gymhorthdal, ac fel y gwelwch o'r cyfrifon maent yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gostau cynnal y mudiad.

Fe welwyd buddsoddiad sylweddol (dros £1.6m) i lwyfannu Eisteddfod Sir Ddinbych, a alluogodd cymaint ohonom i fwynhau gwledd o ryfeddodau yn Nyffryn Clwyd. Oherwydd gwaith diflino staff yr Urdd, yn ogystal â'r ymdrechion sylweddol yn lleol, gwelwyd elw bychan yn y gost o lwyfannu'r Ŵyl. Gwerthfawrogwyd cyfraniad ariannol Cyngor Sir Ddinbych wrth gyrraedd y canlyniad boddhaol yma.

Rydym hefyd wedi buddsoddi oddeutu £0.4m mewn adnewyddu offer a gwneud gwelliannau i'n hasedau, a fydd dwi'n siŵr yn fuddsoddiad gwerthfawr i'r dyfodol. Fe fydd y Bwrdd Busnes yn adolygu'r cyfraniad yma yn rheolaidd ac yn ystyried lefelau ein coffrau i sicrhau cronfa wrth gefn ddigonol i ddiogelu parhad safon ein hadnoddau.

Rydym yn hynod ddiolchgar fod ein partneriaid a'n ffrindiau wedi dangos eu caredigrwydd drwy eu cyfraniadau a'u grantiau eleni, cyfraniad sydd yn allweddol i'n galluogi i ddarparu cymaint o amrywiaeth i blant a phobl ifanc Cymru. Da yw gweld ein bod yn dal i dyfu fel mudiad, a bod brwdfrydedd ac ymdrechion ein gwirfoddolwyr a'n hadrannau ar draws Cymru yn cael ei werthfawrogi.

Yn ariannol mae 2005/6 a 2006/7 wedi bod yn llwyddiannus, hyn wrth gwrs ar ôl colledion yn y blynyddoedd blaenorol. Fel llynedd rydym yn rhagweld mwy o gynnydd mewn gweithgareddau yn ystod 2007/8, ond rydym yn hyderus y byddwn yn gallu ateb y galw am dwf heb golli rheolaeth ar adnoddau ariannol y mudiad. Yn wir rydym yn cyllidebu am elw bychan yn 2007/8.

**Rheon Tomos**
Trysorydd

## __GRŴP CWMNI URDD GOBAITH CYMRU CYFYNGEDIG

**Mantolen 31 Mawrth 2007**

| | 2007 £ | 2006 £ |
|---|---|---|
| **ASEDION SEFYDLOG** | | |
| Eiddo Sylweddol | 7,615,709 | 7,352,043 |
| Buddsoddion | 1,650,743 | 1,493,507 |
| | **9,266,452** | **8,845,550** |
| **ASEDION CYFREDOL** | | |
| Stoc | 33,836 | 36,007 |
| Dyledwyr | 912,937 | 942,555 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,007,219 | 957,915 |
| | **1,953,992** | **1,936,477** |
| **CREDYDWYR** | | |
| Symiau sy'n ddyledus | | |
| o fewn blwyddyn | (1,857,574) | (1,922,534) |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | 96,418 | 13,943 |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 9,362,870 | 8,859,493 |
| **CREDYDWYR** | | |
| Symiau sy'n ddyledus | | |
| ar ôl blwyddyn | (1,388,065) | (1,493,857) |
| | **7,974,805** | **7,365,636** |
| **CRONFEYDD** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 2,198,728 | 2,210,458 |
| Cyfrif incwm a thraul | 4,721,631 | 4,233,296 |
| Cronfa ail-brisiom buddsoddion | 852,476 | 722,195 |
| Cronfeydd gwaddol | 201,970 | 199,687 |
| **CRONFEYDD** | **7,974,805** | **7,365,636** |

**INCWM:**

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentre Ifan | 1,756,735 |
| 2) | Gwersyll yr Urdd Glan-llyn | 1,084,216 |
| 3) | Gwersyll yr Urdd Caerdydd | 467,655 |
| 4) | Incwm o fuddsoddion | 56,163 |
| 5) | Eisteddfod 2006 (gan gynnwys grantiau) | 1,604,898 |
| 6) | Cylchgronau | 74,788 |
| 7) | Aelodaeth | 285,155 |
| 8) | Rhoddion a chymynroddion | 132,785 |
| 9) | Amrywiol | 236,343 |
| 10) | Nawdd (heb gynnwys Eisteddfod) | 3,000 |
| 11) | Grantiau (gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg) | 963,692 |
| 12) | Grantiau tuag at wariant cyfalaf | 174,592 |

**Cyfanswm Incwm am 2006/2007: 6,840,022**

Dosrannwyd costau cefnogi dros y gweithgareddau elusennol ar sail y ganran incwm a dderbyniwyd.

**GWARIANT:**

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentre Ifan | 1,551,789 |
| 2) | Gwersyll yr Urdd Glan-llyn | 931,033 |
| 3) | Gwersyll yr Urdd Caerdydd | 516,605 |
| 4) | Costau datblygu'r maes a rhanbarth | 1,342,250 |
| 5) | Eisteddfod | 1,675,729 |
| 6) | Cylchgronau | 113,656 |
| 7) | Trefn lywodraethol | 80,143 |
| 8) | Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 40,459 |
| 9) | Dibrisiant | 129,751 |


**Cyfanswm Gwariant am 2006/2007: 6,381,415**

**Canlyniad y flwyddyn - Cwmni Urdd Gobaith Cymru**


Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £6,410,739 o gronfeydd rhydd, £421,329 o gronfeydd clwm a £7,954 o gronfeydd gwaddol. Mae'r mewn lif net am y flwyddyn ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd o £199,354 yn cynnwys gweddill o £481,891 ar gronfeydd rhydd, lleihad net o £11,729 o gronfeydd cyfyng a lleihad net o £11,555 ar gronfeydd gwaddol.

| | 2007 £ | 2006 £ |
|---|---|---|
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 458,607 | 1,784,210 |
| Gweddill ar werthu buddsoddion | 6,443 | 5,136 |
| | 465,050 | 1,789,346 |
| Cynnydd/ (lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 144,119 | 283,785 |
| Amhariad ar asedion sefydlog | - | (2,500,000) |
| Cynnydd net mewn cronfeydd | 609,169 | (426,869) |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2006 | 7,365,636 | 7,792,505 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2007** | **7,974,805** | **7,365,636** |

**INCWM 2006-2007**




**GWARIANT 2006-2007**




Cysylltwch â **Mai Parry Roberts**
Cyfarwyddwr Busnes a Phersonél a Dirprwy Brif Weithredwr
Ffôn: **01678 541010** E-bost: **Mai@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**